Arlunio Gobaith
Trosolwg o'r Prosiect
Oedran 11-16

"Helo, fy ffrind!"

Diolch am gymryd rhan ym mhrosiect Arlunio Gobaith. Drwy redeg y sesiynau hyn a gwahodd plant a phobl ifanc i gyfrannu eu gwaith celf, rydych yn ymuno â rhwydwaith creadigol sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau ac sy'n creu lle i heddwch a chymod ledled y byd.

Dechreuodd yr arddangosfa o luniau plant yn 1996 gyda "Helo, fy ffrind!", prosiect hunanbortreadau dan arweiniad y fenter heddwch **Okedongmu** a gysylltodd blant o Dde Corea a Gogledd Corea ar draws y ffin oedd yn rhannu. Yn ddiweddarach, datblygodd yn **Arlunio Gobaith**, gan gasglu breuddwydion plant ledled Asia ac o amgylch y byd. Lansiodd y prosiect ei arddangosfa ryngwladol yn 2023 yn Los Angeles ac ers hynny mae wedi teithio i Belfast, Cape Town a Phencadlys y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd. Ym mis Ebrill 2026, cynhaliwyd arddangosfa yn Nhy'r Cyfeillion yn Llundain, a gwahoddwyd **Crynwyr ym Mhrydain** i lansio galwad ledled Prydain. Dros haf 2026, ysgrifennodd a threialodd y tîm Addysg Heddwch y gwersi hyn fel y gall ysgolion a grwpiau ledled Prydain gyfrannu gwaith celf at y prosiect traws-leol hwn*.

Yn y ddogfen drosolwg hon, cewch gyflwyniad i redeg y sesiynau, deilliannau dysgu sy'n addas i'r oedran, canllawiau ar gyflwyno gwaith celf, gofynion hunanbortreadau** a chysylltiadau â'r cwricwlwm ar gyfer yr Alban, Cymru a Lloegr.

Rydym yn byw mewn cyfnod lle mae rhaniadau a pholareiddio yn cynyddu, gan gynnwys yma ym Mhrydain. Gall plant a phobl ifanc gael eu cyflyru i ffyrdd cul neu wrthwynebol o weld pobl eraill. Mae Arlunio Gobaith yn cynnig dewis arall syml ond pwerus. Drwy greu a rhannu hunanbortreadau a negeseuon cyfarch, caiff plant eu hannog i adnabod eu dynoliaeth gyffredin ag eraill – yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau cymryd rhan yn Arlunio Gobaith cymaint ag yr ydym ni wedi mwynhau ei rannu gyda chi.

Izzy Cartwright, Ben Harper & Ben Mali

Tîm Addysg Heddwch - Crynwyr ym Mhrydain

Cynnwys y Pecyn Adnoddau

- Arlunio Gobaith Trosolwg o Brosiect – 11-16
- Cynlluniau Gwers - 5-7
- Canllawiau Gwaith Celf - Uwchradd
- Cyflwyniad – 5-7
- Taflen 'Lluniau sy'n Cyd-fynd'
- Taflen 'Arlunio Nodweddion'
- Taflenni Myfyrio
- Tudalen Cyflwyno Cais

*Mae traws-leol yn derm a ddefnyddir gan y Rhwydwaith Arlunio Gobaith i ddisgrifio cysylltiadau rhwng lleoedd. Mae'n ein helpu i feddwl am y gwaith celf fel rhywbeth mwy na chyfraniadau o wledydd gwahanol – mae'n ffordd o feddwl y tu hwnt i ffiniau, gan adeiladu pontydd o gysylltiad a gofal.

Rhedeg y Sesiynau



Yn y sesiynau hyn, mae plant yn archwilio hunaniaeth, caredigrwydd, cyfeillgarwch a mynegi eu hunain drwy hunanbortreadau. Maent yn sylwi ar beth sy'n eu gwneud yn arbennig, beth sydd ganddynt yn gyffredin ag eraill, a sut gall gwaith celf ddweud helo wrth ffrind nad ydynt wedi cyfarfod ag ef / hi eto.

Mae'r pecyn addysgu yn cynnwys sleidiau i gefnogi'r gwersi. Maent yn ddewisol; efallai y byddai'n well gennych ddefnyddio ffyrdd mwy rhyngweithiol o rannu gwybodaeth am y prosiect, neu ei addysgu mewn cyd-destun anffurfiol, er enghraifft y tu allan.

Mae Sesiwn 1 wedi'i chynllunio i gael ei harwain mewn cylch. Mae hyn yn ffordd bwerus o ddangos cydraddoldeb, adeiladu perthnasoedd a chefnogi teimlad o berthyn yn eich amgylchedd dysgu. Lle bo'n bosibl, cliriwch y byrddau a threfnwch y gofod cyn i'r sesiwn ddechrau. Am lawer mwy o gemau a gweithgareddau cylch, gweler *'Learning for Peace'*, adnodd gwerthfawr iawn a grëwyd gan Peacemakers (www.peacemakers.org.uk).

Cyn addysgu'r sesiynau hyn, darllenwch y **Canllaw Arlunio** am wybodaeth a fydd yn helpu'r gwersi hyn i lwyddo. Bydd hyn hefyd yn eich helpu i ddilyn y canllawiau cyflwyno ceisiadau y gofynnwyd amdanynt gan Okedongmu, ein sefydliad partner. Unwaith bod eich gwaith celf wedi'i gwblhau, a wnewch chi ei anfon atom erbyn y dyddiad cau.

Ar gyfer disgyblion uwchradd, gall trosolwg BBC Bitesize o Ryfel Corea helpu i egluro cyd-destun hanesyddol Penrhyn Corea.

Deilliannau Dysgu

Sesiwn 1 Cynrychioli eraill	• Diffinio hunaniaeth, cynrychiolaeth, stereoteip, dad.ddyneiddio ac adeiladu heddwch. • Dadansoddi sut mae delweddau yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn gweld pobl, cymunedau a gwledydd eraill. • Defnyddio dialog parchus a sylwgarwch wrth dynnu llun o bartner.
Sesiwn 2 Portreadu ein Hunain	• Rhoi syniadau allweddol am hunaniaeth, cynrychiolaeth a hunan-bortreadu ar waith.. • Datblygu sgiliau arlunio gan ddefnyddio cyfrannedd, llinell, tôn, gwead a gwneud marciau. • Creu hunanbortread amlinellol sydd yn cyfleu agweddau dethol o hunanieth.
Sesiwn 3 "Helo, fy ffrind"	• Creu neges gryno sydd yn cyfleu ystyr eu hunanbortread. • Defnyddio lliw, adnoddau a thechnegau i gwblhau gwaith a chryfhau argraff weledol. • Gwerthuso gwaith celf a myfyrio ar empathi, urddas ac adeiladu heddwch.

Mae'r holl gynlluniau gwersi ac adnoddau ar gael i'w lawrlwytho am ddim o
www.quaker.org.uk/drawinghope

Arddangosfeydd

Bydd arddangosfeydd rhanbarthol yn cael eu cynnal ledled Prydain rhwng Hydref 2026 a Mawrth 2027. Ewch i www.quaker.org.uk/drawinghope i weld y rhestr ddiweddaraf o arddangosfeydd rhanbarthol sydd wedi'u cynllunio a sut i rannu gwaith celf gyda chydlynwyr.

Os hoffech drefnu eich arddangosfa eich hun gydag ysgolion neu grwpiau ieuenctid eraill, gwych! Ewch ati i wneud hyn a rhowch wybod i ni drwy **drawinghope@quaker.org.uk** fel y gallwn rannu canllawiau ac adnoddau arddangos â chi.

Mae mentrau gwych eisoes ar waith ledled Prydain, gan gynnwys:

- Arddangosfeydd ledled dinas mewn llyfrgelloedd, gorsafoedd trên, canolfannau cymunedol, caffis neu fannau cyhoeddus eraill.
- Arddangosfeydd cyfnewid cymunedol sy'n dod â gwaith celf o ardaloedd lleol gwahanol iawn at ei gilydd, er enghraifft bywyd ar ynys bell ochr yn ochr â bywyd mewn dinas fawr.
- Arddangosfeydd cysylltu ysgolion sy'n gweithio'n benodol gyda chymunedau lle mae gwrthdaro neu stereoteipiau eisoes yn bodoli.
- Arddangosfeydd sy'n cysylltu â mentrau ehangach fel gwyliau heddwch neu ddigwyddiadau.

Cyflwyno Gwaith Celf

Ar ôl cwblhau'r hunanbortreadau, casglwch y canlynol i'w hanfon atom:

- Detholiad o **hunanbortreadau gwreiddiol** sy'n bodloni gofynion hunanbortreadau**
- **Taflenni Myfyrio**
- **Taflen Gyflwyno Cais**

Dewiswch unrhyw nifer o hunanbortreadau i'w rhannu â ni, gan gynnwys amrywiaeth o oedrannau, arddulliau a hunaniaethau. Nid ydym yn chwilio am y gwaith celf mwyaf cywir yn dechnegol, ond am waith sy'n rhannu rhywbeth unigryw neu sy'n siarad â negeseuon ehangach y prosiect: cyfeillgarwch, cynrychiolaeth ac adeiladu heddwch. Gofynnwn i chi rannu **gwaith celf gwreiddiol** er mwyn sicrhau sganiau o ansawdd uchel. Efallai y byddwch am sganio neu lungopïo eich gwaith celf i'w gadw yn yr ysgol neu i'w rannu gyda'r plant.

Os yw eich gwaith celf yn rhan o arddangosfa leol neu ranbarthol, anfonwch ef at y cydlynydd perthnasol (gweler 'Arddangosfeydd' uchod). Os ydych yn cyflwyno gwaith celf yn uniongyrchol ar gyfer arddangosfa Llundain yng Ngwanwyn 2027, anfonwch ef yn uniongyrchol at –

Drawing Hope – QPSW

Friends House

173 Euston Road

Llundain / London, NW1 2BJ

**Gofynion ar gyfer hunan-bortread

- Papur A4 (yn ddelfrydol, papur trwchus)
- Naill ai yn y modd portread neu dirwedd
- Gwaith celf lliwgar, gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng (anogir defnyddio lliw cefndir)
- Yr ochr flaen – Cynhwyswch gyfarchiad, cyflwyniad byr (fel pethau rydych chi'n eu hoffi a breuddwyd) a neges o obaith. Gweler Cynllun y Sesiwn 3 am ragor o wybodaeth.
- Yr ochr gefn – Enw ac oedran yr artist, yn ogystal ag unrhyw eiriau mewn ieithoedd eraill wedi'u cyfieithu i'r Saesneg.

Sicrhewch fod yr holl waith celf wedi cyrraedd erbyn **31 Mawrth 2027.**
Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses hon, cysylltwch â ni yn **drawinghope@quaker.org.uk.**

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Cymru

- **Y Celfyddydau Mynegiannol:** Archwilio ac ymateb i gelf weledol; defnyddio arlunio, lliw a deunyddiau i gyfathrebu syniadau personol; datblygu chwilfrydedd, dychymyg a hyder creadigol.
- **Iechyd a Lles:** Meithrin hunanymwybyddiaeth, hyder, empathi a pherthyn; ymarfer caredigrwydd, gwrando, cymryd tro a pharch mewn cylch.
- **Y Dyniaethau:** Archwilio pobl, lleoedd a chymunedau; cydnabod y gall bywydau plant fod yn debyg ac yn wahanol; dechrau meddwl am gyfeillgarwch, tegwch a heddwch.
- **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:** Gwrando a siarad at wahanol ddibenion; disgrifio gwaith celf a diddordebau personol; creu negeseuon byr ar gyfer cynulleidfa.
- **Y Pedwar Diben:** Cefnogi plant fel unigolion iach a hyderus; cyfranwyr mentrus a chreadigol; dinasyddion egwyddorol a gwybodus; a dysgwyr uchelgeisiol a galluog.